

Cofion

Yr ydym yn cyflwyno yr aelodau hynny sydd mewn ysbytai i ofal yr Arglwydd heddiw. Mae Roberta Hughes (Groes) yn Ysbyty'r Royal, Lerpwl a Glyn Davies (Saron) ac Elsa Evans (Llanefydd) yn Ysbyty Glan Clwyd.

Da deall fod Ann Davies (Llanfair) wedi dod adre o'r ysbyty, ac fe hyderwn ei bod yn cryfhau.

Nid yw Nerys Jones (Llansannan) wedi bod yn arbennig yn ddiweddar chwaith, a danfonwn ein cofion ati hithau yr un modd.

Parhawn i gofio hefyd am y canlynol, sydd mewn cartrefi gofal; - Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Megan Pritchard, Mair Roberts, Morfudd Davies, Hannah Alice Jones, ac Elwyn Roberts (Yr Hen Ficerdy); Kitty Parry ac Aneurin Evans (Park Lodge); Eiddwen Jones, Mita Jones a Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Jane Jones (Southern House); Harold Lloyd (Hafan Gwydir); a Gwilym Foulkes (Dolwen).

Hyn ac arall

- Mae dydd Mercher yn ddiwrnod go sownd i Aneurin. Mae'r Sasiwn yma, a bydd cyfarfodydd y dydd yn cael eu cynnal yng Nghapel y Dyffryn, ac yn agored i'r holl flaenoriaid. (Cyfle go dda i flaenoriaid i fynd i Sasiwn!!!) Mi fydd y Sasiwn yn ymddiddan ag Aneurin yn ystod y dydd, cyn symud i'r Capel Mawr, a chyfarfod ordeinio Aneurin am 7.30 yr hwyr. Mae croeso i bawb i ddod i'r cyfarfod hwnnw.
- Cofiwch fod copïau o'r gyfrol **Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn** ar gael yma, a gallaf eu cynnig ar ddisgownt am gyfnod. Os oes rhywun yn dymuno prynu un, gadewch imi wybod. (Dyma fydd llawlyfr yr Ysgol Sul i oedolion am y blynyddoedd 2011-2013)
- Mae Dawn Wilks wedi trefnu sesiwn yn Llansannan prynhawn Sul rhwng 2.30-5.00 i rai sydd â diddordeb arwain y canu ar nos Sul neu gyfeilio. Os hoffech fwy o fanylion – cysylltwch â Dawn (870105) neu dawnbach@googlemail.com

I ddod

- ***SYLWER*** – Cynhelir cyfarfod i **Flaenoriaid y Fro** Nos Fawrth, Tachwedd 16eg yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- **Cynhelir Gwasanaeth Comisiynu Aneurin** bore Sul, Tachwedd 21ain yn Llansannan. Mi fydd hon yn oedfa ar gyfer y Fro gyfan, ac ni fydd oedfa yn y nos.
- **Cyfarfod Chwiorydd Tanyfron** nos Fercher, Tachwedd 24ain am 7.30. Y gŵr gwadd fydd Neville Hughes (Hogiau Llandegai).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7^{fed} Tachwedd 2010

Cofiwch am Oedfa'r Fro heno
Pam fod Iesu yn well
Tabernacl!?!?

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Diolchwn am gael bod gyda'n gilydd yn addoli, ond gwell fyth os cawn brofi cwmni Iesu gyda ni. Peidiwch â setlo am ddim llai! Roeddwn yn meddwl yr wythnos ddiwethaf am rai o'r pethau yr ydym wedi cael cyfle i fod ynglŷn â hwy dros y blynyddoedd sy'n fraint anghyffredin. Un o'r pethau yw ein rhan yn nhrefniadau Gŵyl Gristnogol Llanw. Y rheswm pam yr oedd ar fy meddwl oedd oherwydd bod pwyllgor trefnu gŵyl flwyddyn nesaf yn cael ei gynnal, ac wrth edrych o amgylch y bwrdd, gweld gymaint o wynebau sy'n gyfarwydd inni yma yn y Fro - Derek, Aron, Steffan, Elinor, Rhodri, Andras ac Aneurin. Yn ychwanegol, roedd ambell un fel Sarah a Rhun wedi methu dod. Gyda llaw, mae'r ŵyl wedi symud o Langrannog y flwyddyn nesaf i Barc Carafannau moethus Quay West yng Nghei Newydd. Os am archebu eich lle - ewch i wefan Llanw - www.llanw.org

Beth bynnag, yn ôl at y pwyllgor, nid yw hwn yn un 'cyffredin' mewn unrhyw ystyr; sut fyddai hynny yn bosibl o gael pobl fel Derek ac Andras, Steffan ac Aron yno?! Ond, mae'n brofiad calonogol ac arbennig iawn. Mae yna genhedlaeth o ieuenctid yn codi yn y Gymru Gymraeg sy'n diogelu fy hyder yn awydd yr Arglwydd i fendithio gwaith Iesu Grist yn ein cenhedlaeth. Er bod y rhain yn dal at yr un gredo, yr un hyder yng ngallu'r Efengyl sydd yn wir amdanaf i, eto, mae yna ffresni a brwdfrydedd, mae yna hyder a disgwyliad yn perthyn iddynt sydd fel chwa o awyr iach. D'oes gennyf ond gobeithio y bydd y rhain yn cael rhyddid i weithio yn eu ffordd unigryw, ac y bydd croeso iddynt i wneud hynny mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru.

Sy'n dod â mi at sefyllfa ddifyr iawn o ganol y ddeunawfed ganrif. Roedd yna nifer o bobl yn y cyfnod yn gresynu at frwdfrydedd a diffyg parch pobl ifanc fel Howell Harris, Daniel Rowlands a William Williams i drefniadau'r Eglwys Sefydledig yn y cyfnod. Cofiwch, mae'n annhebygol fod y bechgyn wedi ychwanegu at gyd-ddealltwriaeth. Sonir fod William Williams ar goedd, wedi chwerthin ar ben y Llys Esgobol wnaeth ei wahardd o blwyf Llanwrtyd! Ymhellach, ni wnaeth Daniel Rowland Llangeitho, gymwynas fawr â'i berthynas gyda'r Eglwys Sefydledig drwy godi adeilad ar wahân ar gyfer y gymdeithas Fethodistaidd yn Llangeitho, capel a estynnwyd ym 1764. Roedd yr adeilad o fewn tafliad carreg i Eglwys y Plwyf.

Pam dweud hyn? Wel, mi gredaf fod yna ddewis go sownd yn ein hwynebu fel capeli traddodiadol heddiw. Mae hanes yn dipyn o help inni wrth ddod i'r penderfyniad. Oes awydd ynom i groesawu'r newydd, i gofleidio brwdfrydedd ag argyhoeddiad? Gallaf ddeall pam fod pobl am ddewis peidio cofleidio'r brwdfrydedd, i fentro i'r newydd y mae Duw yn ein galw ni ato. Mae'r cyfarwydd yn gyffyrddus, a'r arwynebol yn ein gadael i fedru dal Iesu hyd braich i ffwrdd. Pobl ar dân yw pobl Iesu, ac mae tân yn medru bod yn beth peryglus - ond allwn ni ddim byw hebdo, rhaid wrth ei wres. Mae'n medru gwneud llanast, ond rhaid ei gael er mwyn llosgi sbwriel a diogelu'r aur.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan. Bydd **paned ac addoliad anffurfiol am 6.00**, ac yna bydd yr oedfa **am 6.30** gyda Ben Nuss yn arwain a Meirion yn pregethu.

Llun Grwpiau **Adnabod** Aneurin, Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00.

Mawrth **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.

Mercher **Cyfarfod Ordeinio** Aneurin yng Nghapel Mawr, Dinbych am 7.30 – croeso i bawb.

Adnabod Sei@ yn Nhan y Graig am 7.30.

Cyfarfod Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00 gyda Mrs Gwenda Owen yn rhoi hanes ei thaith dramor yn ddiweddar.

Iau **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.

Cyfarfod i aelodau'r **Grŵp Addoli** yn Llansannan am 7.30.

Gwener **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.

Sadwrn **Darlithoedd DAWN Cymru** yn y Bala. Mwy o wybodaeth ar wefan Dawn – www.dawncymru.org

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan. Bydd **paned ac addoliad anffurfiol am 6.00**, ac yna bydd yr oedfa **am 6.30** gyda Huw yn arwain a Meirion yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa undebol yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf Bydd Elinor yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn ystod y gwasanaeth, ceir anerchiad gan aelod o'r Samariaid. Bydd Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa undebol yn Saron am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

Sul yma Bydd Meirion yn arwain yr oedfa am 10.00, pryd y bydd Ben a Sioned Nuss yn cyflwyno eu plentyn, Ela Gwenllian, i ofal yr Arglwydd a'i Eglwys. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00 a byddwn yn ymgynnull ger y gofeb am 10.50.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf Bydd y Parch. Bernant Hughes yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 a'r Parch Bernant Hughes yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith **yn Henllan** am 10.00. Yn ystod yr oedfa, bydd Cai Tudur, mab Manon a Llyr yn cael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa undebol yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i

Meirion - ✉ meirion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870601 📞 07554 005423

erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau